PESS
Key Stage 2
Cyfnod Allweddol 2

Dulliau addysgu

Cynghorion ymarferol mewn perthynas ag addysgu

Isod, rhestrir rhai o'r dulliau y gall athrawon eu defnyddio i helpu disgyblion i ddatblygu motiffau/cymalau/adrannau o ddawns. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn, ac mae'n siwr y bydd gennych nifer o'ch syniadau eich hun i ychwanegu at y rhestr.

Cop o

Mae'r athro'n creu ac yn arddangos stepiau/gweithrediadau/motiff(au)/cymal(au) (neu'n dangos clip fideo), ac mae'r disgyblion yn eu cop o. Yna, mae'r disgyblion yn perfformio'r motiff/cymal y mae'r athro wedi'i ddangos iddynt.

Cop o ac aildrefnu

Mae'r athro'n creu ac yn arddangos stepiau/gweithrediadau/motiff(au)/cymal(au) (neu'n dangos clip fideo), ac mae'r disgyblion yn eu cop o. Yna, mae'r disgyblion yn cysylltu'r stepiau/y gweithrediadau/y motiff(au)/y cymal (au) hyn mewn unrhyw drefn, gan gynnwys eu perfformio yn groes i'r drefn neu'r clip gwreiddiol.

Cop o, newid ac aildrefnu

Mae'r athro'n creu ac yn arddangos stepiau/gweithrediadau/motiff(au)/cymal(au) (neu'n dangos clip fideo), ac mae'r disgyblion yn eu cop o. Yna, mae'r disgyblion yn newid/diwygio/amrywio/mireinio/datblygu'r camau/y gweithrediadau/y motiff(au)/y cymal(au) hyn ac yn eu cysylltu mewn unrhyw drefn.

sportwales chwaraeoncymru
Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by Welsh Assembly Government
PE & School Sport
AG a Chwaraeon Ysgol

PESS
Key Stage 2
Cyfnod Allweddol 2

Rholio'r ciwb a pherfformio

Mae'r athro'n rhoi nifer o gardiau fflach (gallai'r rhain gynnwys geiriau, geiriau a lluniau neu luniau'n unig) mewn ciwb symudiadau (ciwb plastig phocedi clir ar bob ochr i'r ciwb). Gallai'r athro ddewis cardiau fflach o blith unrhyw rai o'r canlynol: gweithrediadau sylfaenol; amrywiaeth; trefniannau, patrymau a chydberthnasau gofodol; stepiau traddodiadol; dyfeisiau coreograffig neu nodweddion ansawdd. Yna, mae'r disgyblion yn rholio'r ciwb symudiadau, ac mae'n rhaid iddynt ganolbwyntio ar yr agwedd sy'n wynebu i fyny yn eu motiff/cymal/adran/dawns. Gallai'r disgyblion eraill werthuso a nodi pa agwedd yr oedd y motiff/cymal/adran/dawns yn canolbwyntio arni.

Dechrau, canol neu ddiwedd

Mae'r athro'n creu ac yn arddangos stepiau/gweithrediadau/motiff(au)/cymal(au) (neu'n dangos clip fideo), ac mae'r disgyblion yn defnyddio'r rhain naill ai ar ddechrau eu dawns, yng nghanol eu dawns neu ar ddiwedd eu dawns.

Delio a dewis

- Mae'r athro'n rhoi cyfres o rhwng 4 ac 8 o stepiau/gweithrediadau/nodweddion amrywiaeth/dyfeisiau coreograffig/nodweddion ansawdd wedi'u hargraffu ar gardiau fflach i'r disgyblion. Yna, mae'r disgyblion yn dewis rhwng 2 a 5 o'r rhain i'w cynnwys yn eu dawns. Gallai disgyblion eraill werthuso a nodi pa agweddau y mae'r disgyblion wedi'u cynnwys o'r gyfres wreiddiol o gardiau.
- Gellir amrywio'r dasg hon trwy adael i grwp o ddisgyblion ddewis ar ran grwp arall. Gallai'r grwp ddewis y gyfres fwy o gardiau fflach ar gychwyn y dasg neu'r gyfres lai a gaiff ei chynnwys yn y ddawns.

sportwales chwaraeoncymru
Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Funded by Welsh Assembly Government
PE & School Sport AG a Chwaraeon Ysgol